

Dyddiad cyhoeddi	Awst 2021
I'w adolygu yn	Awst 2024
I'w adolygu gan	Y Gwasanaethau Addysg

# Amddiffyn Plant: Polisi Gofal Personol (Newid Cewynnau a Mynd i'r Toiled) mewn Lleoliadau ac Ysgolion

Yr Adran Addysg  
a Phlant  
YSGOL GYMUNEDOL PENIEL

Awst 2021



[sirgar.llyw.cymru/addysg](http://sirgar.llyw.cymru/addysg)

Cyngor Sir Gâr  
Carmarthenshire  
County Council



## CYNNWYS

1.	Cyflwyniad	Tudalen 3
2.	Datblygiad arferol plant ifanc o ran mynd i'r toiled yn annibynnol	Tudalen 3
3.	Canllawiau ar weithio gyda rhieni/gofalwyr er mwyn sicrhau'r gallu i fynd i'r toiled yn annibynnol	Tudalen 4
4.	Canllawiau ar leihau hyd yr eithaf y risg i blant/pobl ifanc: a. Canllawiau b. Disgrifiadau Swydd a Phrosesau Adnoddau Dynol	Tudalen 5
5.	Lleihau'r tebygolrwydd o faeddu a. Mynediad digonol at doiledau glân b. Preifatrwydd	Tudalen 6
6.	Gofal a chymorth i oedolion sy'n ymwneud â gofal personol	Tudalen 7
	<i>ATODIAD 1</i> Cofnod Gofal Personol	Tudalen 8
	<i>ATODIAD 2</i> Gweithdrefnau Mynd i'r Toiled	Tudalen 9
	<i>ATODIAD 3</i> Rhestr Wirio Sgiliau Mynd i'r Toiled	Tudalen 11

## 1. Cyflwyniad

Yn ôl Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2001, mae'n ofynnol i ddarparwyr addysg ail archwilio eu holl bolisiâu, ystyried eu harferion cyfredol, a diwygio eu trefniadau os oes angen. Mae'n glir felly na cheir gwahaniaethu yn erbyn unrhyw un a chanddo gyflwr a enwir sy'n effeithio ar agweddau ar ei ddatblygiad.

**Mae'n debygol y bydd gwrthod derbyn unrhyw blentyn/person ifanc oherwydd anymataliaeth neu oedi yn ei ddatblygiad personol yn cael ei ystyried yn weithred sy'n gwahaniaethu yn erbyn yr unigolyn hwnnw, ac felly'n anghyfreithlon o dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd.**

Mae gan ddarparwyr addysg ymrwymiad i ddiwallu anghenion plentyn/person ifanc a chanddo anymataliaeth ac sydd wedi profi oedi yn ei ddatblygiad personol, yn yr un modd ag y byddent yn diwallu anghenion unigol rhai sydd wedi profi oedi yn eu datblygiad ieithyddol, neu unrhyw fath arall o oedi yn eu datblygiad. Gallai'r anghenion hyn barhau dros gyfnod o amser lle bo cyflyrau meddygol neu oedi sylweddol mewn datblygiad a/neu anghenion emosiynol yn effeithio ar anymataliaeth.

Ar ôl derbyn plentyn/person ifanc, mae angen i'r lleoliad sicrhau y gofelir am yr unigolyn hwnnw'n dda, gan gynnwys newid cewynnau, dillad a dillad isaf pan fo angen. Mae'n debygol y bydd gofyn i rieni/gofalwyr ddod i newid y plentyn/person ifanc yn gwbl groes i'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd. Ar ben hynny, mae gadael plentyn/person ifanc mewn cewyn/dillad brwnt am unrhyw hyd o amser, nes i'r rhiant/gofalwr ddychwelyd, yn ffurf ar gam-drin.

Ni ddylai'r broses arferol o newid cewyn/dillad isaf godi unrhyw bryderon o ran diogelu. Ni cheir unrhyw reoliadau sy'n nodi bod yn rhaid i aelod arall o staff fod ar gael i oruchwylio'r broses newid cewyn/dillad isaf er mwyn sicrhau na cheir camdriniaeth.

Ychydig iawn o leoliadau/ysgolion fydd â'r adnoddau staff i ddarparu dau aelod o staff i newid cewyn/dillad isaf. Bydd yn rhaid cynnal gwiriadau DBS manwl er mwyn sicrhau diogelwch plentyn/person ifanc pan fônt yng ngofal staff a gyflogir mewn lleoliadau addysg a gofal plant.

Os gwyddys bod risg y bydd plentyn/person ifanc yn gwneud honiadau ffug, ni ddylai ymarferydd unigol ddarparu unrhyw ofal personol, na newid y plentyn/unigolyn hwnnw. Ni ddylai myfyriwr ar leoliad newid cewyn/dillad isaf, nac ymwneud â gofal personol.

Anogir rheolwyr lleoliadau/ysgolion i fod yn wylidwrs rhag unrhyw arwyddion neu symptomau yn gysylltiedig ag arferion amhriodol, yn yr un modd ag y byddent ar gyfer yr holl weithgarwch a gyflawnir ar y safle.

Cynghorir lleoliadau/ysgolion i gymryd camau i leihau'r risgiau'n gysylltiedig â newid cewynnau a mynd i'r toiled ac i leihau'r tebygolrwydd o faeddu ar yr un pryd. Mae angen cynlluniau gofal unigol ar gyfer plentyn/person ifanc sy'n cael ei newid yn rheolaidd am ei fod wedi baeddu - gweler adran 3.

## 2. Datblygiad arferol plant ifanc o ran mynd i'r toiled yn annibynnol

Ymataliaeth yw'r gallu i reoli'n ymwybodol y broses ryddhau wrin neu ysgarthu. Mae angen i blant fod yn barod yn gorfforol ac yn emosiynol er mwyn gallu rheoli eu pledren

a'u coluddion. Yn union fel y bydd plant yn dysgu mewn gwahanol ffyrdd ac ar gyflymder amrywiol, byddant hefyd yn datblygu ymataliaeth mewn oedrannau amrywiol.

Bydd y rhan fwyaf o blant yn cael rheolaeth dros eu coluddion yn ystod y dydd ac yn y nos, a hefyd yn gallu aros yn sych yn ystod y nos, erbyn iddynt droi'n 3-4 oed. Mae'r mwyafrif o blant yn sych yn ystod y dydd erbyn iddynt droi'n 5 oed, gydag ambell ddamwain o bosib. Gallai gymryd yn hirach i blant/pobl ifanc ag anghenion ychwanegol arfer ymataliaeth, ac efallai y bydd angen darpariaeth arbennig arnynt i'w helpu i fynd i'r toiled.

Mae un o bob deuddeg o blant/pobl ifanc yn y DU yn cael problemau'n gysylltiedig â gwlychu, rhwymedd neu faeddu yn ystod y dydd. Mae'n debygol y bydd gan y rhan fwyaf o staff addysgol, ar ryw bryd neu'i gilydd blentyn/person ifanc yn eu dosbarth a chanddo broblem gwlychu neu faeddu (ERIC - Addysg ac Adnoddau ar gyfer Gwella Ymataliaeth yn ystod Plentynod). Dylai'r athro dosbarth/athrawes ddosbarth nodi'r plant/pobl ifanc hyn a hysbysu'r Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol. Dylai'r athro dosbarth/athrawes ddosbarth hefyd nodi unrhyw blentyn/person ifanc sy'n cael damweiniau, ond sydd fel arfer yn sych. Bydd hyn yn galluogi oedolion i ganfod unrhyw batrymau sydd wedi'u sefydlu, y dylid eu trafod â'r Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol.

### **3. Canllawiau ar weithio gyda rhieni/gofalwyr er mwyn sicrhau'r gallu i fynd i'r toiled yn annibynnol**

Mae rhieni/gofalwyr yn fwy tebygol o fod yn agored ynghylch eu pryderon am ddysgu a datblygiad eu plentyn/person ifanc, ac o ofyn am gymorth os ydynt yn hyderus na fydd unrhyw farnu ynghylch unrhyw oedi wrth ddysgu. Er mwyn osgoi camddealltwriaeth a helpu rhieni/gofalwyr i deimlo'n hyderus, mae'n bwysig bod yn glir ynghylch hyn. Gellid creu Cynllun Gofal sy'n pennu cyfrifoldebau a disgwyliadau'r lleoliad/ysgol yn ogystal â'r rhieni/gofalwyr. Drwy'r Cynllun Gofal, dylai'r staff weithio gyda'r rhieni/gofalwyr i dynnu eu sylw at faterion baeddu neu ofal personol. Ar ôl hynny, dylai'r Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol greu Cynllun Gofal drafft i'r rhieni/gofalwyr gytuno arno a'i lofnodi.

Er enghraifft, gallai'r rhieni/gofalwyr:

- Cytuno i sicrhau bod y plentyn/person ifanc yn cael ei newid ar yr amser hwyraf posibl cyn dod ag ef i'r lleoliad;
- Darparu cewynnau a dillad sbâr i'r lleoliad;
- Deall a chytuno ar y gweithdrefnau a ddilynir wrth newid eu plentyn/person ifanc yn y lleoliad - gan gynnwys defnyddio unrhyw lanweithydd neu daenu unrhyw hufen;
- Cytuno i hysbysu'r lleoliad os bydd gan y plentyn/person ifanc unrhyw farciau/brech ar y croen;
- Cytuno i bolisi 'newid cyn lleied â phosib', hynny yw, ni fyddai'r lleoliad yn newid y plentyn/person ifanc yn amlach na phe bai gartref;
- Cytuno i adolygu'r trefniadau os bydd angen - dylid gwneud hynny bob tymor o leiaf, ac efallai na fydd ond yn golygu bod y Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yn ffonio'r rhieni/gofalwyr i ofyn a oes angen cynnwys unrhyw newidiadau yn y Cynllun Gofal. Dylid cadw Cynlluniau Gofal ... *(nodwch leoliad*

*sydd ar gael i'r holl staff ond nad yw'n weladwy i unrhyw blant/pobl ifanc nac ymwelwyr).*

Gallai staff y lleoliad/yr ysgol:

- Cytuno i newid y plentyn/person ifanc os yw wedi baeddu, neu os yw'r unigolyn yn anghyffyrddus o wlyb;
- Cytuno pa mor aml y bydd y plentyn/person ifanc yn cael ei newid;
- Cytuno i fonitro faint o weithiau y bydd plentyn/person ifanc yn cael ei newid er mwyn canfod a yw'n gwneud unrhyw gynnydd;
- Cytuno i nodi os yw'r plentyn/person ifanc yn drallodus, ac os gwelir unrhyw farciau neu frech ar y croen, a rhoi gwybod am hynny i'r Swyddog Diogelu;
- Cytuno i adolygu'r trefniadau bob tymor neu fel bo'r angen;
- Gweithio gyda rhieni/gofalwyr ar raglen hyfforddiant toiled ar yr amser priodol - gweler y Rhestr Wirio ar gyfer Sgiliau Mynd i'r Toiled yn Atodiad 3.

Gyda chytundeb y rhieni/gofalwyr, gallai fod yn ddefnyddiol rhannu'r wybodaeth â'r Ymwelydd Ysgol ac/neu'r Nyrs Ysgol er mwyn rhoi cefnogaeth yn y cartref yn ogystal ag yn y lleoliad/ysgol.

#### **4. Canllawiau ar leihau hyd yr eithaf y risg i blentyn/person ifanc:**

##### **a. Canllawiau Ysgrifenedig**

Dylai fod gan leoliadau/ysgolion ganllawiau ysgrifenedig clir (polisi) i'w dilyn gan y staff wrth newid/rhoi gofal personol i blentyn/person ifanc, er mwyn sicrhau y cedwir at y gweithdrefnau cywir, ac na fydd unigolion yn poeni am gael eu camgyhuddo o gamdriniaeth .

Dylai rhieni/gofalwyr fod yn ymwybodol o'r gweithdrefnau y bydd yr ysgol yn eu dilyn os bydd angen newid eu plentyn/person ifanc neu os bydd angen rhoi gofal personol iddo yn ystod yr amser y mae'n ei dreulio yn y lleoliad addysg . Dylid rhannu'r polisi hwn â rhieni/gofalwyr os bydd eu plentyn/person ifanc yn baeddu, yn gorfod cael newid ei ddillad neu'n derbyn gofal o natur bersonol yn rheolaidd . Bydd y canllawiau penodol ar gyfer plentyn/person ifanc unigol ar ffurf Cynllun Gofal.

Bydd y Cynllun Gofal yn nodi:

- Pwy fydd yn newid y plentyn/person ifanc;
- Lle bydd hynny'n digwydd;
- Pa adnoddau fydd yn cael eu defnyddio - pa lanweithyddion neu hufen fydd yn cael ei daenu a phwy fydd yn eu cyflenwi;
- Pa fesurau fydd yn cael eu gweithredu i atal haint, h.y. defnyddio weips gwrthfacterol ar gelfi, ffedogau a menig;
- Beth fydd staff yn ei wneud os yw'r profiad yn achosi i'r plentyn/person ifanc gynhyrfu mwy na'r disgwyl neu os bydd yr aelod o staff yn sylwi ar farciau neu anafiadau;
- Pa gofnodion fydd yn cael eu cadw os bydd plentyn/person ifanc yn cael ei newid, a pha aelod o staff fydd yn cofnodi'r wybodaeth honno - gweler Atodiad 1;
- Datganiad clir y bydd **yr holl staff** sy'n newid plant/pobl ifanc wedi derbyn gwiriad DBS manwl dilys, ac mai dim ond yr aelodau hyn o staff fydd yn newid plant/pobl

ifanc neu'n rhoi gofal personol iddynt yn y lleoliad/ysgol. Disgwylir y bydd yr **HOLL STAFF** yn dal tystysgrif DBS fanwl fel mater o drefn.

Er nad yw'n bosib rhoi cyfrif am yr holl amgylchiadau'n gysylltiedig â gofal personol yn y polisi hwn, mae angen ystyried amgylchiadau arbennig a allai godi os bydd plentyn/person ifanc â phroblemau ymataliaeth cymhleth yn cael ei dderbyn i'r lleoliad/ysgol . Mewn achos o'r fath, dylid dilyn y gweithdrefnau cyffredinol yn Atodiad 2 bob amser, ond efallai y bydd angen cynnwys y gweithiwr proffesiynol gofal iechyd priodol yn agos wrth flaengynllunio.

*Cyfrifoldeb y Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol fydd cydlynu'r gwaith o ysgrifennu Cynlluniau Gofal i unigolion ond bydd angen i rieni/gofalwyr a'r holl staff sy'n ymwneud â'r plentyn/person ifanc gyfrannu i'r cynlluniau a bod yn gwbl ymwybodol o'u cynnwys.*

### **b. Disgrifiadau swydd a phrosesau adnoddau dynol**

Mae'n debygol mai cynorthwywyr addysgu neu staff cymorth eraill fydd yn darparu'r rhan fwyaf o ofal personol. Bydd athrawon hefyd yn cymryd eu tro i gyflawni'r dasg hon mewn rhai lleoliadau/ysgolion ond rydym yn cydnabod nad yw hyn yn digwydd yn aml. Mewn unrhyw swyddi newydd i gynorthwywyr addysgu ac aelodau eraill o staff cymorth dylid cynnwys darparu gofal personol i annog plant/pobl ifanc i fynd i'r toiled yn annibynnol a meithrin sgiliau hunanofal/gofal personol eraill fel un o'r tasgau yn y disgrifiad swydd. Dylid diwygio disgrifiadau swydd sy'n bodoli eisoes i adlewyrchu hyn lle bo angen.

Argymhellir bod disgrifiadau swydd yn cynnwys datganiadau fel a ganlyn:

- Cynorthwyo plant/pobl ifanc i wisgo/newid ar gyfer gweithgareddau/er hylendid personol, gan gynnwys newid;
- Gofal a llesiant plant/pobl ifanc gan gynnwys mynd i'r toiled, newid a bwydo fel bo'r angen.

Rhoddir hyfforddiant i'r staff sy'n ymwneud â'r gweithgareddau hyn.

Cynghorir lleoliadau/ysgolion i edrych ar ddisgrifiadau swydd safonol y sir ar gyfer cynorthwywyr addysgu/staff cymorth wrth lunio neu ddiwygio disgrifiadau swydd. Dylid defnyddio'r rhain yn sail ar gyfer unrhyw ddisgrifiad swydd a'u haddasu wedyn i gyd-fynd â'r swydd benodol. Mae copïau o'r disgrifiadau swydd hyn a'r manylebau person cysylltiedig ar gael o'r Adran Adnoddau Dynol.

Dylai pob aelod o staff sy'n darparu gofal personol i blentyn/person ifanc fod wedi derbyn gwiriad DBS manwl dilys.

### **5. Lleihau'r tebygolrwydd o faeddu**

Er gwaethaf y ffaith bod gan rai plant/pobl ifanc broblemau sylfaenol y mae angen mynd i'r afael â hwy gyda chefnogaeth gweithwyr proffesiynol meddygol, gall lleoliadau/ysgolion gymryd camau i leihau'r tebygolrwydd y bydd plant/pobl ifanc yn gwlychu ac yn baeddu eu hunain.

Efallai y bydd rhai plant/pobl ifanc yn ceisio lleihau'r hylif y maent yn ei yfed er mwyn lleihau'r angen i fynd i'r toiled oherwydd pryderon ynghylch diffyg preifatrwydd, amgylchedd annymunol y toiled neu'r ofn na fydd digon o amser i fynd i'r toiled. Ymdrinnir yn fanylach â'r materion hyn isod.

#### **a. Mynediad digonol at doiledau glân**

Mae ar bob plentyn/person ifanc angen mynediad, drwy gydol y dydd, at doiledau glân, ond mae hi hefyd yn arfer da eu hatgoffa i fynd i'r toiled yn rhan o'r holl weithgareddau, e.e. amser egwyl ac amser cinio.

Fodd bynnag, cydnabyddir y gall caniatáu i blentyn/person ifanc fynd i'r toiled ar unrhyw bryd darfu ar yr addysgu. Hefyd, gallai plentyn/person ifanc gamddefnyddio polisi o'r fath. Ceir rhesymau da hefyd dros annog yr holl blant/pobl ifanc i fynd i'r toiled cyn dechrau ymweliad. Mae'n fuddiol, fodd bynnag, i leoliadau/ysgolion ystyried sut i gadw trefn a disgyblaeth yn y maes hwn, gan ystyried yr effeithiau hirdymor posibl ar iechyd plant a phobl ifanc ar yr un pryd. Ni ddylid atal yr un plentyn/person ifanc rhag mynd i'r toiled, ac efallai y bydd ar rai plant angen 'tocyn' sy'n caniatáu iddynt fynd i'r toiled ar unrhyw bryd yn ystod y dydd, heb ofyn caniatâd oedolyn yn benodol ar gyfer hynny.

Os nad yw'r toiledau yn lân, bydd plant/pobl ifanc yn amharod i fynd iddynt ac yn ceisio 'dal' tan iddynt gyrraedd adref er mwyn osgoi defnyddio cyfleusterau annymunol. Gall yr ymdrech hon i ddal achosi iddynt wlychu a baeddu yn ystod y dydd.

Ar wahân i waith adnewyddu rhannol neu lwyr, a allai fod yn ateb hirdymor, y ffordd orau o gael gwared ag arogleuon drwg yw sefydlu rhaglen lanhau reolaidd. Bydd toiledau'n dirywio dros amser. Po waethaf yw eu cyflwr, y lleiaf gofalus fydd plant/pobl ifanc wrth eu defnyddio, gan achosi iddynt ddirywio ymhellach. Mae angen cynnal a chadw toiledau'n dda, eu trwsio'n brydlon a'u glanhau'n ddigonol (bydd hyn yn golygu ddwywaith y dydd o leiaf yn y rhan fwyaf o ysgolion), ac wedyn bydd angen annog disgyblion/pobl ifanc i gymryd cyfrifoldeb dros y toiledau, a pherchnogaeth arnynt, i'w cadw mewn cyflwr rhesymol.

#### **b. Plant sy'n derbyn Gofal Enwretig**

Cynghorir plant/pobl ifanc sy'n derbyn Gofal Enwretig i yfed digon o hylifau yn ystod y dydd ac felly, yn ystod oriau ysgol, efallai y bydd angen iddynt fynd i'r toiled yn amlach. Efallai y bydd angen 'tocyn' arnynt hefyd i ganiatáu iddynt fynd i'r toiled ar unrhyw adeg yn ystod y dydd heb ofyn yn benodol am ganiatâd gan oedolyn.

### **AR DEITHIAU DIM OND STAFF YSGOL (NID RHIENI SY'N GWIRFODDOLI NEU FYFYRWYR) DDYLAI HEBRWNG PLANT/POBL IFANC I'R TOILEDAU.**

#### **c. Preifatrwydd**

Mae preifatrwydd yn fater pwysig i blentyn/person ifanc. Mae cael cloeon digonol sydd yn hawdd eu gweithio, na all disgyblion eu hagar o'r tu allan, yn hanfodol, yn ogystal â drysau/parwydydd digon isel/uchel fel na all pobl eraill edrych dros/o dan y drws.

#### **6. Gofal a chymorth i oedolion sy'n ymwneud â gofal personol**

Bydd staff cymorth a chynorthwywyr addysgu sy'n ymwneud yn rheolaidd â newid cewynnau neu roi cymorth i ddisgyblion o ran hunanofal/hylendid yn mynd ar Gyrsiau Codi a Chario neu'n cael arweiniad gan eraill sydd wedi bod ar y cwrs nes iddynt gallu mynd ar gwrs eu hunain. Gwneir hyn er mwyn sicrhau eu bod yn dilyn gweithdrefnau diogel, a'r gweithdrefnau cywir gyda'r plentyn/person ifanc wrth ei newid, ac nad ydynt yn rhoi unrhyw straen gormodol ar eu corff eu hunain.

## **7. Caniatâd**

Dylid datblygu pob cynllun gofal personol mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a chynnwys yr ysgol, rhieni/gofalwyr, plant/pobl ifanc (lle bo'n briodol) a gweithwyr proffesiynol os oes angen. Dylai'r holl bartïon perthnasol gytuno ar gynlluniau a'u llofnodi a'u diwygio'n rheolaidd (o leiaf bob blwyddyn neu ar ôl newid mewn amgylchiadau). Os bydd angen cyngor neu arweiniad ychwanegol, cynghorir ysgolion i gysylltu â Thîm Cynhwysiant yr Awdurdod Lleol yn y Gwasanaethau Addysg.





## **ATODIAD 2 - dylid arddangos copi yn ...**

### **Gweithdrefnau ar gyfer Mynd i'r Toiled**

#### **Rhan hollbwysig o gefnogi gweithdrefnau ar gyfer mynd i'r toiled yw sicrhau preifatrwydd ac urddas pobl ifanc, a'u diogelwch .**

- Ni fydd plant/pobl ifanc ond yn cael eu hebrwng i'r toiled, **os** oes angen, gan oedolyn sydd wedi derbyn gwiriad DBS manwl.
- Ni fydd oedolyn ond yn helpu plentyn/person ifanc pan fydd angen hynny, a phan fydd hynny'n briodol.
- Gall fod yn briodol i oedolyn aros yng nghyffiniau'r toiledau.
- Anogir plant/pobl ifanc i ddefnyddio papur toiled i'w sychu eu hunain.
- Anogir plant/pobl ifanc i fflysio'r toiled eu hunain.
- Cyfarwyddir plant/pobl ifanc i olchi eu dwylo ac i ddefnyddio sebon mewn modd priodol.
- Os bydd plant/pobl ifanc wedi baeddu, bydd oedolyn sydd wedi derbyn gwiriad DBS manwl yn eu hebrwng i'r ardal newid benodol ac yn eu newid mewn modd priodol a diogel y cytunwyd arno ymlaen llaw. Gallai oedolyn arall fynd yn gwmni i'r plant/pobl ifanc a'r oedolyn fydd yn newid y plentyn/person ifanc os yw'n briodol.
- Bydd yn rhaid i'r oedolyn wisgo ffedog a menig tafladwy.
- Dylid defnyddio gwelyau/matiau newid a'u sychu gyda glanweithydd gwrthfacteria bob tro.
- Dylid rhoi cewynnau mewn bag y tu mewn i fag arall a'u gwaredu gyda gwastraff arferol na ellir ei ailgylchu; mae'n bosibl y bydd bin cewynnau gan rai ysgolion a dylid gwagio'r bin hwn yn wythnosol gan y cwmni biniau cewynnau.
- Dylid rhoi unrhyw ddillad gwlyb/wedi'u baeddu i'r rhieni/gofalwyr mewn bag plastig wedi'i glymu'n dynn.

Dylai'r oedolyn:

- Helpu'r plant/pobl ifanc i fynd ar y gwely newid a gofyn iddynt orwedd ar eu hochr gyda'u pengliniau wedi'u plygu tuag at eu bol. (Ar adegau, efallai y bydd angen i blant/pobl ifanc orwedd ar eu cefn, ond bydd yn rhaid i'r oedolyn ystyried a allai cawod fod yn opsiwn gwell).

- Sychu'r coesau, y cefn, a bochau'r pen ôl cyn dechrau glanhau'r rhannau mwy preifat o'r corff. Ni ddylai'r oedolyn sychu mewn modd mewnwthiol na dwfn ychwaith. Ar unrhyw bryd, ni ddylid sychu'r wain na'r anws i'r graddau lle bydd y plant/pobl ifanc yn teimlo'n agored i niwed, neu'n teimlo y cafwyd unrhyw darfu ar yr agorfeydd hyn.
- Os oes unrhyw amheuaeth, ffoniwch y rhieni/gofalwyr neu gofynnwch am gyngor gan aelod uwch o staff.

### ATODIAD 3 - i'w ddefnyddio fel y bo'n briodol

## RHESTR WIRIO SGILIAU MYND I'R TOILED

ENW:	Blwyddyn:	Dyddiad Geni:	Cyflawnwyd
Ymwybyddiaeth o anghenion toiled			
Mewn cewynnau / cewynnau codi			
Yn profi cufnodau o fod un such			
Gwluchu / baeddu yn weddol reolaidd			
Yn oedi wrth wlychu / baeddu			
Yn dangos arwyddion o fod yn ymwybodol ei fod yn baeddu			
Yn dangos arwyddion o fod yn ymwybodol ei fod yn gwlychu			
Yn deall arwyddion / geiriau a fynegir er mwyn cyfleu'r angen am doiled, e.e., toiled, poti, gwlyb, sych, pi-			
Yn qallu cyfleu rhai arwyddion / geiriau priodol i qufleu'r angen am doiled			
Angen cymhorthion ffisegol / cefnoqaeth i fynd i ardal y toiledau			
Yn qallu mynd i ardal y toiledau gydaq usqogiadau			
Yn qallu mynd i ardal y toiledau ar ei ben ei hun			
Yn teimlo'n quffurddus ac ymlaciol un ardal y toiledau			
Angen cymorth ffisegol i ddilyn y drefn wrth fynd i'r toiled, e.e. sefyll mewn ciw i fynd, golchi dwylo ac			
Angen rhywfaint o usqogiad i ddilyn y drefn wrth fynd i'r toiled			
Yn dilyn rhai o'r trefnau yn qusulltiedig â mynd i'r toiled yn annibynnol			
Bydd yn mynd i nôl ac yn pasio'r eitemau newid sudd eu hangen e.e., cewynnau, weips ac ati			
Yn cydweithredu wrth i'r aelod penodedig dynnu ei ddillad i ffwrdd / i lawr, i'w newid			
Yn cydweithredu wrth gael newid cewyn			
Yn cydweithredu â gweithdrefnau glanhau			
Bydd yn eistedd ar y poti yn qwisgo cewyn, gyda chynhaliaeth qorfforol			
Bydd yn eistedd ar y poti yn qwisgo cewyn, heb qumorth			
Bydd yn eistedd ar y poti heb wisgo cewyn, gyda chynhaliaeth qorfforol			
Bydd yn eistedd ar y poti heb wisgo cewyn, heb gymorth			
Bydd angen cymhorthion ffisegol / canllawiau arbennig i'w alluogi i eistedd ar y toiled			
Bydd yn eistedd ar y toiled yn qwisgo cewyn, heb qynhaliaeth qorfforol			
Bydd yn eistedd ar y toiled yn qwisgo cewyn, heb qumorth			
Bydd yn eistedd ar y toiled heb wisgo cewyn, gyda chynhaliaeth qorfforol			
Bydd yn eistedd ar y toiled heb wisgo cewyn, heb qumorth			
Wedi pasio dŵr ar y poti			
Wedi usgarthu ar y poti			
Wedi pasio dŵr ar y toiled			
Wedi usgarthu ar y toiled			
Gall orffen tynnu ei drowsus ar ei ben ei hun:			
O groth y goes			
O'r penliniau			
O ran uchaf y coesau			
O'r cluniau			
O'i ganol			

Gall orffen tynnu ei ddillad isaf ar ei ben ei hun:	Cyflawnwyd
O groth y goes	
O'r penliniau	
O'r cluniau	
O'i ganol	
Merched: Yn gallu codi sgert a thynnu'r holl ddillad angenrheidiol i lawr ar ei phen ei hun	
Bechaun: Yn gallu tynnu'r holl ddillad angenrheidiol i lawr ar ei ben ei hun	
Bydd un gosod caead/sedd y toiled mewn safle priodol	
Bydd un eistedd ar y toiled ac un pasio dŵr un rheolaidd	
Bydd yn sefyll wrth yr wrinal/y toiled i basio dŵr	
Bydd un eistedd ar y toiled i usgarthu yn rheolaidd	
Bydd angen cymorth arno i ddod oddi ar y toiled	
Bydd yn gallu dod oddi ar y toiled heb gymorth	
Bydd yn estyn papur toiled mewn modd priodol	
Bydd yn ei suchu ei hun quda'r papur toiled	
Bydd yn taflu'r papur yn y toiled	
Bydd yn fflusio'r toiled	
Bydd yn gosod sedd/caead y toiled yn ôl yn eu lle mewn modd priodol	
Yn fodlon codi ei ddillad isaf ar ei ben ei hun:	
O'r cluniau	
O ran uchaf y coesau	
O'r penliniau	
O groth y goes	
Bydd yn gallu gorffen codi ei drowsus ar ei ben ei hun:	
O'r cluniau	
O ran uchaf y coesau	
O'r penliniau	
O groth y goes	
Gall ymdopi â botymau/sipiau ar ei ben ei hun	
Merched: Gall aildrefnu ei sgert mewn modd priodol	
Mae angen usqogiad i olchi dwylo	
Mae angen cymorth i dorchi llewys	
Gall dorchi llewys ar ei ben ei hun	
Mae angen cymorth i weithio'r tapiau	
Bydd yn qweithio'r tapiau ar ei ben ei hun	
Bydd yn dal dwylo o dan y dŵr am hyd priodol o amser	
Bydd yn rhoi sebon ar ei ddwylo quda chymorth	
Bydd yn rhoi sebon ar ei ddwylo ar ei ben ei hun	
Bydd yn golchi'r sebon i ffwrdd	
Mae angen cymorth arno i suchu dwylo ar dywel papur.	
Mae'n suchu dwylo ar ei ben ei hun ac mewn modd priodol	
Mae'n rhoi'r tywel papur yn y bin qudaq usqogiad	
Mae'n rhoi'r tywel papur yn y bin heb usqogiad	
Bydd yn dilun yr holl drefnau ar qufer mynd i'r toiled yn rheolaidd o'i usqogi a'i atqoffa	
Bydd yn cael damweiniau munych	
Bydd yn cael damweiniau'n achlysurol	
Bydd yn dilun yr holl drefnau ar qufer mynd i'r toiled ar ei ben ei hun	
Bydd angen ei usqogi i ddychwelyd i'r dosbarth	
Bydd yn dychwelyd i'r dosbarth ohono ei hun	

Sylwadau pellach ar Sgiliau Mynd i'r Toiled	Llofnod a'r dyddiad:



Setting Logo Sefydliad



**CYNLLUN GOFAL IECHYD UNIGOL / INDIVIDUAL HEALTHCARE PLAN**

**Enw / Name:**  
**Dyddiad Geni / Date of Birth:**  
**Prif gyflwr (cyflyrau) / Main condition(s):**

**Enw'r ysgol / Name of School:**  
**Dosbarth / Class:**  
**Dyddiad cynllun / Date of plan:**  
**Dyddiad Adolygu / Review Date:**  
**Rhesymau dros adolygu'n gynnar / Reasons to review early:**

**Manylion Cyswllt / Contact Information**

<b>Cyswllt Teulu / Family Contact 1:</b>	<b>Cyswllt Teulu / Family Contact 2:</b>
<b>Cyswllt Ysbyty / Hospital Contact:</b>	<b>Cyswllt Meddyg / G.P:</b>

**Disgrifiad o'r cyflwr a manylion symptomau'r unigolyn / Description of condition and details of pupil's individual symptoms**

**Datganiad Effaith (a lunnir ar y cyd gan weithwyr proffesiynol ym maes iechyd a maes addysg, gan amlinellu'r effaith ar ddysgu a sut y gellir lleihau hon cymaint â phosibl).**

**Impact Statement (jointly produced by health and education professionals outlining effect on learning and how this can be kept to a minimum).**

**Anghenion Gofal Dyddiol (y camau gweithredu sydd angen eu cymryd – Pwy? Beth? Pryd?**  
**Daily Care Requirements (Actions Required - Who? What? When?)**

Disgybl i / *Pupil to:*

(Ble mae'n bosibl dylid annog annibyniaeth hyd yn oed os oes angen goruchwyliaeth. Os yw'n gwrthod ni ddylid gorfodi hyn ond dylid cysylltu â rhieni er mwyn gwneud trefniadau gwahanol / *Where possible independence should be encouraged even if supervision is required. If refusal, not to be forced but parents to be informed for alternative arrangements to be made.*)

Ysgol i / *School to:*

Rhieni i / *Parent to:*

**Disgrifiad o beth yw argyfwng yn achos y person a pha gamau sydd i'w cymryd os bydd hyn yn digwydd**

**Describe what constitutes an Emergency for the person, and the action to take if this occurs**

**Gofal dilynol (Pwy? Beth? Pryd?) / Follow up care (Who? What? When?)**

***Pwy sy'n gyfrifol? / Persons Responsible:***

***Swyddogion Cymorth Cyntaf / First Aiders:***

***Hyfforddiant / Training:***



**Pwy sydd i dderbyn copi o'r ffurflen? / Form copied to:**

**Ble cedwir y cofnodion? Where will records be kept?**

**Disgybl / Pupil** ----- **Dyddiad /**  
**Date:** -----

**Rhiant / Gofalwr / Rhiant / Gofalwr:** ----- **Dyddiad**  
**/ Date:** -----

**Addysg / Education:** ----- **Dyddiad /**  
**Date:** -----

**Iechyd / Iechyd:** ----- **Dyddiad /**  
**Date:** -----

*Os oes gan y dysgwr ADY, dylai'r Cynllun Gofal Iechyd Unigol gysylltu â'r Cynllun Addysg Unigol, y Proffil Un Dudalen, y Cynllun Datblygu Unigol neu'r Datganiad.*

*If a learner has ALN the IHP should link with the IEP, 1PP+, IDP or Statement.*

